

LEADERS UNLOCKED

# PANEL IEUENCTID IOPC

## MANIFFESTO 2030

IOPC
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# RHAGAIR

## "DIM SGYRSIAU AMDANOM HEBOM"

Mae'r ddogfen hon wedi'i **chyd-gynhyrchu gan aelodau o Banel Ieuenctid y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)** ledled Cymru a Lloegr.

Mae Panel Ieuenctid IOPC yn cynnwys 42 o bobl ifanc **16-25 oed o gymunedau amrywiol** ledled Cymru a Lloegr. Rydym wedi ymrwymo i **nodi atebion** i gynyddu **ymddiriedaeth a hyder** pobl ifanc **mewn plismona** a **system gwynion yr heddlu** ac ymgymryd â gwaith dylanwadu cenedlaethol i **sbarduno gwaith i newid systemau.**


Ers 2022, mae Panel Ieuenctid IOPC wedi cynnal **tri arolwg blynyddol** o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys **bron i 6,700 o leisiau ifanc**. Mae ein hadroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r canlyniadau ar gael yma: **https://www.policeconduct.gov.uk/cy/about-us/engaging-with-communities/our-youth-panel**

Yn 2024, penderfynom fynd â'r atebion hyn ymhellach, gan ddechrau datblygu ein gwaith **dylanwadu cenedlaethol i wireddu'r argymhellion hyn.**

Datblygwyd **Maniffesto 2030 Panel Ieuenctid IOPC ar gyfer newid plismona a system gwynion yr heddlu** rhwng 2023 a 2025, ac mae'n adlewyrchu blynyddoedd o ganfyddiadau a gwaith ymchwil cenedlaethol, trafodaethau helaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, ac **ymgynghori â sefydliadau o bob sector** sy'n ymwneud â phlismona a system gwynion yr heddlu. Nod yr argymhellion hyn yw **sbarduno gwaith i newid systemau** yn y meysydd a fydd yn arwain at y gwelliannau mwyaf diriaethol i bobl ifanc a phobl sy'n agored i niwed.

Mae gwaith Panel Ieuenctid IOPC yn cael ei **arwain gan ieuenctid yn ystod pob cam.** Hwyluswyd y broses gan y fenter gymdeithasol Leaders Unlocked, sy'n gweithio i rymuso a galluogi pobl ifanc i fynegi eu barn am y materion sy'n effeithio arnynt.
**www.leaders-unlocked.org**

# PANEL IEUENCTID IOPC:
## Maniffesto 2030



01 — Mwy o **ymgysylltiad cymunedol rhagweithiol** gan wasanaethau'r heddlu, dan arweiniad prosesau cyd-gynhyrchu â phobl ifanc.



02 — Dylai'r **Hawl i Gwyno** gael ei gynnwys yn y rhan fwyaf o **ryngweithiadau â'r heddlu.**



03 — Dylai pob swyddog gael **hyfforddiant** mewn dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl.



04 — Dylai'r defnydd o **gamerâu corff** fod **yn orfodol** a chael ei **ariannu'n llawn.**



05 — Dylid **cyfeirio pob achos** sy'n ymwneud â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed at **IOPC.**



06 — **Ymgysylltiad** gwell **â phob sector addysg** ynglŷn â'r system gwynion ac IOPC.



07 — **Gwasanaeth eirioli** i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i unigolion sy'n gwneud cwyn.



08 - **System Cwynion Cymunedol** ar gyfer cymundedau a sefydliadau ar lawr gwlad.



09 - Mae angen i ymchwiliadau **ganolbwyntio ar ddioddefwyr** a chynnwys **Datganiad Effaith ar yr Achwynydd.**



10 - Dylai'r system gwynion fod **yn hygyrch** i blant a phobl ifanc, a dylai gynnwys **dangosfwrdd ar-lein.**

## 01 — Mwy o ymgysylltiad cymunedol rhagweithiol gan wasanaethau'r heddlu, dan arweiniad prosesau cyd-gynhyrchu â phobl ifanc.

**Erbyn 2030 dylai pob gwasanaeth heddlu fod â chomisiwn, grŵp craffu, neu grŵp cynghori ar ieuenctid er mwyn gwella cysylltiad rhwng yr heddlu a phobl ifanc a helpu i fynd i'r afael â materion systemig.**

Mae pobl ifanc eisiau gweld **mwy o bresenoldeb di-gosb** yng nghanol trefi, gan sicrhau bod pobl ifanc yn dod i adnabod swyddogion lleol, gan arwain at **gynnydd mewn dealltwriaeth ac ymddiriedaeth.** Bydd rhyngweithiadau cadarnhaol yn grymuso pobl ifanc i **fynd at yr heddlu** pan fydd angen cymorth arnynt ac yn **cynorthwyo'r heddlu** yn ystod ymchwiliadau. Dylai digwyddiadau a mentrau cymdogaeth gael eu cyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc ac arweinwyr cymunedol - gan ddychwelyd at **fodel plismona trwy gydsyniad.** Yn ogystal â darparu **atebolrwydd,** byddai'r model hwn yn **gyfrwng uniongyrchol ar gyfer hanesion plismona cadarnhaol** ac enghreifftiau o ymarfer da.

Un enghraifft o ymgysylltu drwy gyd-gynhyrchu yw ein gwaith presennol **sy'n darparu hyfforddiant heddlu dan arweiniad ieuenctid** ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr. Cyn yr hyfforddiant, rydym **yn siarad â grwpiau cymunedol lleol o bobl ifanc** er mwyn deall y materion allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth. Nod y sesiynau hyfforddi hyn yw **creu cysylltiadau**, bod yn **fan diogel i drafod materion cymdogaeth** a **hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth** o brofiadau'r ddwy ochr. Mae ymgysylltiad cymunedol sensitif yn cael effaith fawr ar y gymuned ac ar staff yr heddlu sy'n cymryd rhan, a gwelir hyn yn y dyfyniadau isod.

"Roedd yn dda cael siarad â'r gweithwyr proffesiynol gwahanol a chlywed ystod eang o safbwyntiau gwahanol ar fynd i'r afael â'r un materion sy'n wynebu pobl ifanc gyda'r heddlu."

**Ilana a Jason, Aelodau o Banel Ieuenctid IOPC**

"Mae ... safbwyntiau unigryw pobl ifanc yn hanfodol wrth lunio sut mae swyddogion yn ymgysylltu â nhw yn ein cymunedau. Mae hi mor bwysig rhoi cyfle i bobl ifanc leisio eu barn a dylanwadu ar weithredoedd yr heddlu, gan ymateb i'r gwasanaeth a hyfforddiant."

**Al Cheyne, Ditectif Arolygydd Heddlu Gorllewin Swydd Efrog**

Mae gan bobl ifanc **farn amrywiol am swyddogion yr heddlu mewn ysgolion.** Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo y byddent yn elwa o **sesiynau addysgol** yn ymwneud â'r gyfraith a'u hawliau gan **swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.** Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai rhoi cyfle i swyddogion sy'n **angerddol am weithio gyda phobl ifanc** ymgymryd â'r rôl.



## 02 — Dylai'r Hawl i Gwyno gael ei gynnwys yn y rhan fwyaf o ryngweithiadau â'r heddlu.

**Yn 2030, mae'r Panel eisiau gweld gwasanaethau heddlu ledled Cymru a Lloegr yn cymryd rôl weithredol i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu. Hefyd, mae am weld yr hawl i gwyno sydd wedi'i chynnwys yn yr hawliau yn cael ei darllen i unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.**

Yn 2025, nodwyd mai **dim ond 35%** o bobl **ifanc oedd yn gwybod sut i wneud cwyn** am yr heddlu. Er bod y ganran hon yn cynyddu (26% oedd y ffigur yn ein harolwg yn 2024), mae'n dangos mai pobl ifanc yw **un o'r grwpiau demograffig lleiaf tebygol o wneud cwyn** am eu triniaeth gan yr heddlu (Public Perceptions Tracker 2024/25 IOPC). Hefyd, mae angen **newid diwylliannol** er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth heddlu yn croesawu adborth fel ased, **yn sicrhau bod achosion o gamymddwyn yn cael eu clywed,** ac yn nodi bylchau mewn hyfforddiant neu'r adegau pan nad yw **rhagfarnau personol a chamsyniadau** wedi cael eu herio.

## 03 - Dylai pob swyddog gael hyfforddiant mewn dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl.

**Erbyn 2030, dylid sicrhau bod rhaglenni hyfforddi gorfodol wedi'u cyflwyno ar gyfer gwasanaethau heddlu rheng flaen mewn dulliau sy'n ystyriol o drawma, dulliau isgyfeirio, iechyd meddwl, a niwroamrywiaeth**

Mae'n gwbl hanfodol bod yr heddlu yn **deall trawma** er mwyn **ymateb yn effeithiol ac yn dosturiol.** Y llynedd, fe wnaethom alw am sicrhau bod pob swyddog yr heddlu yn derbyn **hyfforddiant gorfodol sy'n ystyriol o drawma**, yn ogystal â hyfforddiant ar iechyd meddwl a niwroamrywiaeth er mwyn defnyddio **dulliau isgyfeirio** yn well a **lleihau trawma sy'n gysylltiedig â'r heddlu.** Byddai hyn hefyd **yn gwella cyfathrebu ac ymgysylltu** rhwng yr heddlu a phobl ifanc, yn grymuso swyddogion i wneud penderfyniadau ac **yn atal cyswllt diangen** rhwng pobl ifanc a'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'n hanfodol bod yr hyfforddiant hwn yn **hynod ryngweithiol**, yn cydnabod **croestoriadedd** y pynciau hyn, ac yn cael ei **gyd-gynhyrchu** gyda'r rhai sydd â **phrofiad bywyd** o'r materion hyn, er mwyn sicrhau ei fod yn cael **effaith ddiriaethol** ar ryngweithiadau rhwng yr heddlu a phobl ifanc.

## 04 — Dylai'r defnydd o gamerâu corff fod yn orfodol a chael ei ariannu'n llawn.

**Erbyn 2030, dylai camerâu corff fod yn orfodol ym mhob gwasanaeth heddlu ledled Cymru a Lloegr, gan sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu darparu.**

Mae'r **defnydd anghyson** presennol o gamerâu corff yn niweidio hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Mae camerâu corff yn **amddiffyn yr heddlu a'r cyhoedd** ac maen nhw'n hanfodol ar gyfer **atebolrwydd.** Dylid eu defnyddio yn ystod **pob cam** o ryngweithiadau rhwng yr heddlu a'r cyhoedd gan gynnwys rhyngweithiadau ar y stryd, cyfweliadau, ac yn ystod ymchwiliadau. Mae hyn **eisoes yn digwydd fel mater o drefn** mewn rhai rhanbarthau plismona, ond byddai defnydd gorfodol cenedlaethol yn sicrhau bod **adnoddau digonol yn cael eu darparu** ar gyfer pob gwasanaeth.



## 05 — Dylid cyfeirio pob achos sy'n ymwneud â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed at IOPC.

**Erbyn 2030, mae Panel Ieuenctid IOPC eisiau sicrhau bod pob achos sy'n ymwneud â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael ei gyfeirio at IOPC.**

O dan y system gwynion bresennol, mae adran safonau proffesiynol **y gwasanaeth heddlu** dan sylw **yn ystyried cwynion yn y lle cyntaf,** a **dim ond yr achosion mwyaf 'difrifol a sensitif' sy'n cael eu hadolygu gan IOPC.** Mae Panel Ieuenctid IOPC yn credu y dylid ehangu cwmpas IOPC i **ddarparu goruchwyliaeth ar gyfer pob achos sy'n ymwneud â phlant ac oedolion agored i niwed.** Gellid cyflawni'r newid hwn i ddechrau trwy atgyfeiriadau gwirfoddol gan adrannau safonau proffesiynol yr heddlu, ac yn yr hirdymor trwy **ddiwygio dosbarthiad 'difrifol a sensitif'.** Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, byddai angen i'r llywodraeth wneud ymrwymiad i ddarparu digon o adnoddau.

Fel y nodwyd yn eitem 3 o'r Maniffesto, mae **grwpiau agored i niwed,** fel pobl niwrowahanol, yn gallu wynebu **uwchgyfeirio diangen** wrth ryngweithio â'r heddlu oherwydd **diffyg hyfforddiant digonol** a dealltwriaeth ledled gwasanaeth yr heddlu. Mae'n bwysig **arsylwi a chraffu ar dueddiadau** yn ymwneud â'r grwpiau hyn er mwyn diogelu'r cymunedau hyn.

Yn ogystal, fel **y nodwyd yn y dyfyniad uchod,** nid yw llawer o bobl ifanc yn cael eu cymell i gwyno oherwydd bod cwyno'n uniongyrchol i'r gwasanaeth heddlu dan sylw yn teimlo'n **wrth-reddfol.** Hefyd,mae rhai yn **teimlo y bydd yr heddlu yn 'amddiffyn eu pobl eu hunain'.** Felly, bydd y newid hwn **yn grymuso pobl ifanc ac oedolion agored i niwed** i benderfynu a ydynt am ymgysylltu â system gwynion yr heddlu.





## 06 — Ymgysylltiad gwell â phob sector addysg ar y system gwynion ac IOPC.

**Erbyn 2030, mae Panel Ieuenctid IOPC eisiau sicrhau bod pob sefydliad addysgol yng Nghymru a Lloegr wedi cynnal sesiynau ymgysylltu â'u myfyrwyr ar system gwynion yr heddlu.**

Mae angen **mwy o ymgysylltiad â system gwynion yr heddlu ar bob un o'r sectorau addysg,** o ysgolion cynradd hyd at brifysgol, er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr **yn gwybod sut i wneud cwyn.** Mae Panel Ieuenctid IOPC yn awyddus i lansio **ymgyrch bosteri i godi ymwybyddiaeth ym mhob ysgol uwchradd, coleg a phrifysgol** yng Nghymru a Lloegr. Mae IOPC eisoes yn codi ymwybyddiaeth trwy ei **gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid,** ond mae angen **ymestyn y gwaith hwn i'r rhai y tu allan i addysg draddodiadol,** fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Dylai IOPC fynd gam ymhellach yn y gwaith hwn trwy **gyd-gynhyrchu pecyn adnoddau gyda'r Panel Ieuenctid,** a fydd yn sicrhau bod modd **cyflwyno** ein gweithdai ymgysylltu **yn annibynnol** ar y Panel Ieuenctid. Gallai tiwtor, athro neu ddarlithydd wneud y gwaith hwn, gan ddefnyddio adnoddau gwahanol ar gyfer grwpiau oedran gwahanol, megis dysgwyr addysg gynradd, addysg uwchradd neu addysg uwch.




## 07 — Gwasanaeth eirioli i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i unigolion sy'n cwyno.

**Erbyn 2030, mae Panel Ieuenctid IOPC eisiau gweld gwasanaeth eirioli sy'n cefnogi'r rhai sy'n ymgysylltu â system gwynion yr heddlu, gan sicrhau bod yr unigolion sy'n cael eu cynrychioli gan y gwasanaeth hwn yn ymddiried ynddo.**

Mae Panel Ieuenctid IOPC wedi clywed dro ar ôl tro **mai'r unig amser y byddai pobl ifanc yn cwyno yw pan fyddent yn cael cymorth gan aelod o'r teulu neu oedolyn y gellir ymddiried ynddo.** Beth sy'n digwydd os nad oes gan berson ifanc oedolyn y gellir ymddiried ynddo? Byddai **gwasanaeth eirioli** yn sicrhau bod y **system gwynion yn fwy hygyrch** i bob person ifanc, yn enwedig pobl ifanc agored i niwed fel y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, neu'r rhai sy'n siarad Saesneg fel ail iaith. Trwy dderbyn **cymorth gan sefydliad y gellir ymddiried ynddo,** mae'n bosibl y bydd pobl ifanc sydd â diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu neu awdurdod yn fwy parod **i wneud cwyn,** a byddai'n creu mwy **o gyfleoedd i ddiogelu'r** person ifanc.

Oddi mewn i'r fframwaith presennol, mae yna **anghydbwysedd pŵer rhwng yr heddlu ac achwynwyr** oherwydd y ffaith fod yr heddlu yn derbyn cymorth cyfreithiol a chymorth gan IOPC yn y rhan fwyaf o achosion 'sensitif a difrifol' yn ystod ymchwiliadau. Nid yw achwynwyr yn derbyn cymorth o'r fath.

## 09 - Mae angen i ymchwiliadau ganolbwyntio ar ddioddefwyr a chynnwys Datganiad Effaith ar yr Achwynydd.

**Erbyn 2030, mae Panel Ieuenctid IOPC eisiau gweld llais cryfach ar gyfer yr achwynydd mewn ymchwiliadau IOPC a chofnodion cwynion yr heddlu, gan gynnwys trwy ddefnyddio Datganiad Effaith ar yr Achwynydd.**

Mae Panel Ieuenctid IOPC yn awyddus i sicrhau **llais cryfach ar gyfer yr achwynydd ym mhob un o ymchwiliadau IOPC.** Mae angen cynnwys **Datganiad Effaith ar yr Achwynydd,** sy'n amlinellu'r **effaith ar yr unigolyn** a/neu ei deulu (yn debyg i'r hawl a roddir o dan y Cod Dioddefwyr), mewn achosion o gwyno. Byddai hyn yn sicrhau bod **argymhellion** ymchwiliad **yn gallu mynd i'r afael â'r effaith** ar y dioddefwr yn well. Fel **blaenoriaeth,** dylid cynnwys hyn mewn **achosion 'difrifol a sensitif'** y mae IOPC yn ymchwilio iddynt, o bosibl yn dilyn atgyfeiriad gan adrannau safonau proffesiynol gwasanaethau'r heddlu, ac yna ei gynnwys ym **mhob cwyn** a gyflwynir i **unrhyw wasanaeth heddlu** yng Nghymru a Lloegr.



## 10 - Dylai'r system gwynion fod yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a dylai gynnwys system dangosfwrdd ar-lein.

Mae system gwynion bresennol yr heddlu yn **gymhleth iawn.** Mae **pob un o'r 43 gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr** yn trin cwynion **yn wahanol,** ac **nid** yw cwynion **yn cael eu cofnodi** bob tro. Mae pobl ifanc sydd wedi cwyno **yn cyfeirio at ddiffyg** cyfathrebu, gan gwestiynu a yw'n **'werth cwyno'.** Mae gan Banel Ieuenctid IOPC sawl cynnig i **ddiwygio hygyrchedd system gwynion yr heddlu:**

- **Sawl ffordd o wneud adroddiad y tu hwnt i ffurflen ar-lein:** e.e. gallu gwneud cwyn dros y ffôn, mewn iaith arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain), yn bersonol mewn lleoliadau cymunedol, neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- **Canllawiau ar y broses:** pan fydd rhywun yn cyflwyno cwyn, mae'n derbyn pecyn gwybodaeth drwy e-bost neu'r post sy'n cynnwys adnoddau wedi'u teilwra yn ymwneud â sylfaen y gŵyn, a gwybodaeth am wasanaethau cymorth.
- Mae **pob cwyn** a gyflwynir i wasanaethau'r heddlu **yn cael ei chofnodi,** ac mae achwynwyr yn cael **eu diogelu** wrth gyflwyno cwyn am y tro cyntaf.
- Mae angen sefydlu **gweithdrefn gyson** ar gyfer cwynion i bob gwasanaeth heddlu ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r Panel yn credu mai'r **ffordd orau o gyflawni hyn yw trwy gyflwyno system dangosfwrdd ar-lein,** lle bydd y cyhoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn ymwneud â system gwynion yr heddlu, gweld cwynion cymunedol neu uwch-gwynion, cael mynediad at wasanaethau cymorth, a mewngofnodi ac olrhain cynnydd eu cwyn. Byddai hyn yn **dod â system gwynion yr heddlu i'r 21ain ganrif** ac yn sicrhau bod holl elfennau'r system yn hygyrch. Gellid defnyddio'r dangosfwrdd hwn i **fonitro cwynion 'lefel isel' sy'n cael eu cynnwys mewn systemau fetio swyddogion heddlu,** er mwyn sicrhau nad yw ymddygiad gwael yn cael ei anwybyddu nac yn mynd o ddrwg i waeth, a bod y **wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i'r cyhoedd er mwyn eu gwneud yn fwy hyderus** y byddant yn cael eu cymryd o ddifrif.

# Wedi cael eich ysbrydoli?

**EISIAU CYMRYD RHAN AC YMUNO Â'N HYMGYRCH AR GYFER DYFODOL GWELL I BOBL IFANC YM MAES PLISMONA A SYSTEM GWYNION YR HEDDLU?**

**RYDYN NI AM GLYWED GENNYCH CHI!**

info@leaders-unlocked.org, neu
youthpanel@policeconduct.gov.uk

www.leaders-unlocked.org

@leadersunlocked



LEADERS UNLOCKED

IOPC Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct